## ATODLEN 8

**Erthygl 4**

## DANGOSYDDION IECHYD AMGYLCHEDD A SAFONAU MASNACH

| Rhif y Dangosydd | Disgrifiad y Dangosydd | Manylion y Dangosydd |
|---|---|---|
| NAWPI 8.1 | Y ganran o'r archwiliadau adeiladau bwyd y dylid bod wedi'u cynnal a gynhaliwyd mewn gwirionedd ar gyfer:<br>(a) adeiladau risg-uchel<br>(b) adeiladau eraill | Ystyr archwiliadau a oedd i gael eu cynnal yw archwiliadau ar adeiladau perthnasol a oedd i gael eu cynnal yn ystod y y flwyddyn, yn ôl y nifer lleiaf o archwiliadau ar gyfer yr adeiladau hynny y dylid bod wedi'u cynnal at ddibenion hylendid bwyd yn unol â COP9.<br><br>Diffinnir archwilio yng nghod ymarfer Rhif 3 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, paragraff 2 (heb gynnwys adran (f)).<br><br>Mae “COP9” isod yn cyfeirio at Cod Ymarfer rhif 9 Deddf Diogelwch Bwyd (1990 p.16)<br><br>ystyr “adeiladau bwyd” yw pob categori fel y'u diffinnir yn atodiad (1) o COP9<br><br>ystyr “adeiladau risg uchel” yw adeiladau yn y categorïau risg (a) i (c) yn COP9<br><br>ystyr “adeiladau eraill” yw adeiladau yng nghategorïau (d) i (f) yn COP9. |
| NAWPI 8.2/BV166 | Sgôr iechyd amgylchedd/ safonau masnach yn erbyn rhestr gyfeirio o arferion gorau gorfodi. | Mae'r rhestr gyfeirio arfaethedig isod wedi'i drafftio gyda 10 pwynt, ac un neu ragor o gwestiynau ambob pwynt. Mae pob pwynt yn werth 1 marc. Mae'r cwestiwn/ cwestiynau o dan bob pwynt yn werth ffracsiwn o'r marc hwnnw. Mae angen ateb “ydyw” neu “nac ydyw” i bob cwestiwn. Er enghraifft, ceir wyth cwestiwn o dan bwynt 1, felly mae ateb “ydyw” i un cwestiwn o dan bwynt 1 yn |

| Rhif y Dangosydd | Disgrifiad y Dangosydd | Manylion y Dangosydd |
|---|---|---|
| | | ennill sgôr o 1/8fed, ac mae "ydyw" i bum cwestiwn yn ennill sgôr o 5/8fed.<br><br>Polisïau Gorfodi Ysgrifenedig:<br>(a) (a) A yw'r awdurdod gwerth gorau wedi ysgrifennu polisi/polisïau gorfodi a'u cyhoeddi, wedi'u hategu'n ffurfiol gan eu haelodau, i ymdrin â phob agwedd ar orfodi iechyd amgylchedd a safonau masnachu?<br>(b) A yw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â gofynion statudol yn cael eu dilyn yn unol â'r polisi/polisïau gorfodi?<br>(c) A yw'r polisi/polisïau yn cadarnhau bod yr awdurdod gwerth gorau wedi llofnodi'r Concordat Gorfodi?<br>(ch) A yw'r polisi/polisïau yn cymryd y canllawiau a nodir yn "The Code for Crown Prosecutors" i ystyriaeth?<br>(d) A yw'r polisi/polisïau yn cynnwys y meini prawf sydd i'w bodloni cyn camau gorfodi ffurfiol gan yr awdurdod gwerth gorau?<br>(dd) A yw'r polisi/polisïau yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd lle mae'r swyddogaeth orfodi yn cael ei rhannu? |

| Rhif y Dangosydd | Disgrifiad y Dangosydd | Manylion y Dangosydd |
|---|---|---|
| | | (e) A yw'r polisi/polisïau yn gwneud darpariaeth ar gyfer buddiannau penodol defnyddwyr o fewn ardal yr awdurdod gwerth gorau, ga gynnwys perchnogion busnesau, gweithwyr cyflogedig a'r cyhoedd?<br>(f) A yw'r polisi/polisïau uchod yn cael eu dilyn, eu monitro, ac yn destun adroddiadau, ac a fydd unrhyw amrywiadau yn cael sylw yn y cynllun gwasanaethau neu'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau (BVPP)?<br>Gweithgareddau gorfodi cynlluniedig<br>**2.** A oes gan yr awdurdod gwerth gorau raglenni archwilio wedi'u seilio ar risg, a chyfundrefnau samplu ac arolygu ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio sydd:<br>(a) yn bodloni'r gofynion cyfreithiol;<br>(b) yn rhoi sylw fel arall i ganllawiau swyddogol;<br>(c) yn rhoi sylw fel arall i ganllawiau a safonau proffesiynol priodol eraill.<br>Rhaid i'r awdurdod gwerth gorau allu dangos ei fod yn adolygu yn rheolaidd sut y mae'n dehongli ac yn cymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Er enghraifft, ym maes safonau masnachu, dylai gynnal cymhariaeth |

| Rhif y Dangosydd | Disgrifiad y Dangosydd | Manylion y Dangosydd |
|---|---|---|
| | | flynyddol o'r gyfran o'i adeiladau masnachu y mae wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â risg anchwiliadwy “uchel”, “canolig” neu “isel” gyda'r ffigyrau ar gyfer awdurdodau eraill. Yna dylai fynd ati i feincnodi'r broses gydag awdurdodau eraill os yw'r cyfrannau hyn yn sylweddol wahanol i'r cyfartaledd, e.e. os yw ffigyrau'r awdurdod yn y ddengradd isaf neu v uchaf.<br><br>**3.** A yw'r rhaglenni a'r cyfundrefnau uchod ym Mhwynt 2 yn cael eu dilyn, eu monitro, ac yn destun adroddiadau, gan roi sylw i unrhyw amrywiadau o fewn cynllun gwasanaethau eu BVPP?<br><br>**4.** A oes gan yr awdurdod gwerth gorau raglenni addysg a gwybodaeth sydd wedi'u targedu?<br><br>**5.** A yw'r rhaglenni y crybwyllir ym Mhwynt 4 yn cael eu dilyn, eu monitro, ac yn destun adroddiadau, gan roi sylw i unrhyw wyriadau oddi wrth y rhaglenni cynlluniedig o fewn cynllun gwasanaethau neu BVPP?<br><br>Gweithgareddau gorfodi adweithiol ac ymatebol<br><br>**6.** A oes gan yr awdurdod gwerth gorau bolisïau, gweithdrefnau a safonau ar gyfer y canlynol ac a yw'r rheiny'n cael eu rhoi ar waith:<br><br>(a) ymateb i gwynion, ac ymdrin â chwynion, a wneir i'r awdurdod gwerth gorau am drydydd parti a cheisiadau am wasanaethau ynghylch |

| Rhif y Dangosydd | Disgrifiad y Dangosydd | Manylion y Dangosydd |
|---|---|---|
| | | swyddogaethau gorfodi statudol?<br>(b) Cefnogi darparu cyngor i ddefnyddwyr, gan gynnwys cymryd rhan mewn Rhwydwaith Cymorth y Defnyddwyr?<br>**7.** A oes gan yr awdurdod gwerth gorau bolisïau, gweithdrefnau a safonau, ac yn rhoi'r rheiny ar waith, ar gyfer ymateb i'r canlynol ac ymdrin â hwy;<br>(a) hysbysiadau statudol<br>(b) cyfeirio gwybodaeth berthnasol sydd wedi dod i law at reolyddion eraill os oes yna fuddiannau rheoliadol ehangach?<br>**8.** A yw'r polisïau, y gweithdrefnau a'r safonau a grybwyllwyd uchod ym Mhwyntiau 6 a 7 yn cael eu dilyn, eu monitro, ac yn destun adroddiadau, gan roi sylw i unrhyw amrywiadau o fewn y cynllun gwasanaethau neu'r BVPP?<br>Adnoddau Priodol<br>**9.** A yw'r awdurdod gwerth gorau wedi meincnodi ei adnoddau ar gyfer y gwasanaethau perthnasol yn erbyn awdurdodau gwerth gorau tebyg neu ddarparwyr gwasanaethau cymaradwy, gan gynnwys rhai preifat a gwirfoddol, o fewn y pum mlynedd diwethaf?<br>Lefelau Ymgynghori a boddhad<br>(a) (a) A oes gan yr awdurdod gwerth gorau ystod |

| Rhif y Dangosydd | Disgrifiad y Dangosydd | Manylion y Dangosydd |
|---|---|---|
| | | o fecanweithiau ar gyfer ymgynghori â budd-ddeiliaid y mae eu gwasanaeth yn effeithio arnynt ynghylch datblygu'r polisi gorfodi? |
| | | (b) A oes gan yr awdurdod gwerth gorau ystod o fecanweithiau ar gyfer ymgynghori â budd-ddeiliaid y mae eu gwasanaeth yn effeithio arnynt ynghylch lefelau boddhad? |
| | | (c) ac a yw'r ymatebion i'r ymgynghori yn cael eu hystyried, ac yn destun gweithredu? |